Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Uchelgais y strategaeth gweithlu 2024 i 2027

## Thema 1: Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach

**Uchelgais: bydd y gweithlu gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ble bynnag y maen nhw'n gweithio.**

- Cynyddu cyfran y gweithlu sy'n teimlo bod eu morâl yn dda (65 y cant yn 2023).
- Bod gan y gweithlu ymwybyddiaeth o ble i fynd i gael gwybod am gymorth iechyd a llesiant yn y gwaith (yn 2023 dywedodd 33 y cant Gofal Cymdeithasol Cymru a dywedodd 7 y cant Canopi)
- Gostwng canran y gweithlu sy'n bwriadu gadael y sector yn ystod y deuddeg mis nesaf (26 y cant yn 2023).
- Gostwng canran y gweithlu sy'n dweud eu bod wedi cael eu bwlio, wedi bod yn destun gwahaniaethu neu wedi cael eu haflonyddu (37 y cant yn 2023)
- Cael sgoriau methodoleg safonol y gellir eu cymharu'n genedlaethol, ar gyfer bodlonrwydd ar fywyd, teimlo'n werth chweil, hapusrwydd a gorbryder (byddwn yn sefydlu gwaelodlin yn 2024).

## Thema 2: Denu a recriwtio

**Uchelgais: bydd gofal cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda fel brand cryf a hawdd ei adnabod, a'r sector o ddewis i'n gweithlu yn y dyfodol.**

- Cynnal canran y bobl sy'n ymuno â'r sector oherwydd eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth (63 y cant yn 2023)
- Lleihau canran y swyddi gwag fel cyfran o'r sector (9 y cant yn 2022).
- Lleihau canran y cyflogwyr sy'n sôn am heriau o ran argaeledd staff (71 y cant yn 2023).
- Gwella hyd gwasanaeth, gan ddefnyddio data o'r gofrestr fel mesur o gyfraddau cadw (byddwn yn sefydlu gwaelodlin yn 2024).
- Gwella faint mae'r gweithlu yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (yn 2023, roedd 76 y cant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhai maent yn eu cynorthwyo a 44 y cant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd).
- Gwella canfyddiad y cyhoedd yng Nghymru o'r gweithlu (yn 2023, roedd dros ddwy ran o dair o'r farn bod y gweithlu yn gwneud gwaith da ac roedd gan bron i dri chwarter hyder ynddynt).

## Thema 3: Modelau gweithlu di-dor

**Uchelgais: modelau gweithlu amlbroffesiwn ac aml-asiantaeth fydd y norm**

- Cynnal gwaith ymgysylltu blynyddol â byrddau gweithlu rhanbarthol i gael adborth ynghylch sut mae anghenion gweithlu integredig yn cael eu diwallu.
- Cynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol SCWWDP i ddeall blaenoriaethau gweithlu gwasanaethau integredig.

## Thema 4: Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol

**Uchelgais: bydd galluoedd digidol a thechnolegol y gweithlu wedi'i ddatblygu'n dda ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i wneud y gorau o'n ffordd o weithio, er mwyn ein helpu i ddarparu'r gofal gorau posib i bobl.**

- Sefydlu'r mesurau cywir ar gyfer llythrennedd a hyder digidol.

## Thema 5: Addysg a dysgu rhagorol

**Uchelgais: bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn darparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl Cymru.**

- Lleihau canran y gweithlu cofrestredig y mae'n rhaid iddynt ennill y cymwysterau sydd eu hangen i adnewyddu eu cofrestriad (yn 2023 roedd hyn yn 52 y cant o'r gweithlu cartrefi gofal i oedolion, 43 y cant o'r gweithlu gofal cartref, a 73 y cant o'r gweithlu gofal preswyl i blant)
- Cynyddu canran y gweithlu sy'n dweud eu bod yn cael yr hyfforddiant iawn i'w cefnogi yn eu rôl (79 y cant yn 2023)
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cwblhau prentisiaethau (2,502 yn 22/23)

## Thema 6: Arweinyddiaeth ac olyniaeth

**Uchelgais: bydd arweinwyr yn y maes/sector iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol.**

- Cynyddu canran y gweithlu a fyddai'n hoffi cael swydd arwain yn y dyfodol (36 y cant yn 2023).
- Cynyddu canran y gweithlu sy'n teimlo bod eu rheolwr yn eu cefnogi (66 y cant yn 2023).
- Mae rheolwyr ym maes gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'n fras amrywiaeth y gweithlu maent yn ei oruchwylio.

## Thema 7: Cyflenwad a siâp y gweithlu

**Uchelgais: gennym ni weithlu cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.**

- Lleihau canran y swyddi gwag fel cyfran o'r sector (9 y cant yn 2022).
- Cael cynllun gweithlu ym mhob rhanbarth yng Nghymru i ddiwallu anghenion y boblogaeth.